


Ffotograff (H) Cyngor Sir Bro Morgannwg

## *Teithiau Cerdded 26, 26a a 27, Llanilltud Fawr*

# Eglwys, Coleg a Goleudy

**Tair taith gerdded yn un yw hon mewn gwirionedd - sef y brif daith 9 milltir a enwyd uchod a dwy daith fyrrach y tu fewn iddi - sef llwybr gorllewinol hirgrwn 3 milltir a hanner o gwmpas Llanilltud Fawr a llwybr cylch 5 milltir Marcroes/Sain Dunwyd. Pa un bynnag a ddewiswch, mae'n siwr y bydd yr Arfordir Treftadaeth godidog a'i glogwyni a'i flaen traeth a'r gwarchodfeydd natur a'r eglwysi hynafol ar y daith yn eich cyfareddu'n llwyr. Bydd dwy o'r teithiau'n eich arwain heibio i Gastell hynod ddiddorol Sain Dunwyd.**

**Pellter**: 9 milltir, 3 milltir a hanner neu 5 milltir.
**Map**: Map Ordnans Explorer 151 Caerdydd a Phen-y-bont ar Ogwr
**Parcio**: Maes parcio Neuadd y Dref, Llanilltud Fawr, Cyfeirnod Grid 967687; Traeth Llanilltud Fawr Cyfeirnod Grid 957675; Yr As Fach Cyfeirnod Grid 916684; Cilfach barcio ychydig i'r dwyrain i Sain Dunwyd Cyfeirnod Grid 940682 (ychydig o le'n unig).
**Trafnidiaeth Gyhoeddus**: bysiau i Lanilltud Fawr a thafarn y Lighthouse Inn ym Marcroes.
**Bwyd a Diod**: mae amryw o fwytai yn Llanilltud Fawr, tafarn y Lighthouse Inn ym Marcroes, ciosg ar Yr As Fach yn ystod y tymor.
**Cyfleusterau**: maes parcio Neuadd y Dref.




## Y LLWYBR

Ⓒ Trowch i'r chwith yn sydyn wrth allanfa maes parcio Neuadd y Dref, gan gadw i'r chwith i'r Tudor Tavern i Burial Lane. Ewch heibio i Eglwys Illtud Sant ❶ ar y dde ac ymlaen nes i chi gyrraedd rhes o risiau sy'n arwain i Ben y Bryn. Ar ben y grisiau, trowch i Ben y Bryn (gwelwch Dŷ'r Porth ❷ ar eich ochr dde a Cholomendy mewn cae y tu ôl iddo).

Cerddwch heibio i fythynnod Pen y Bryn a dilynwch lwybr bach i lawr y rhiw nes i chi gyrraedd camfa garreg ar y dde. Dringwch y gamfa honno a gwyrwch i'r chwith gan ddilyn ymyl y cae hyd at gamfa gornel. Ewch yn eich blaen i lawr y rhiw ac i lawr rhes o risiau gan gadw Tŷ Fflandrys (Flanders Farm) ar eich ochr chwith. Pan ddewch i Heol Fflandrys, trowch i'r dde a dilynwch yr heol honno heibio i le mae'n cyfarfod â Pharc Col-huw nes i chi gyrraedd clwyd. Gwelwch fod yr heol yn troi'n llwybr yn y fan honno.

Y cyfan sydd angen ei wneud yn awr, yw dilyn y llwybr hwnnw am ryw filltir nes i chi ddod at yr arfordir go iawn. Byddwch yn mynd heibio i Bramble Cottage ar y chwith, ac ar ôl dringo llethr ysgafn a mynd drwy glwyd byddwch hefyd yn mynd heibio i nifer o ysguboriau ar y chwith. Wrth ddilyn y llwybr ar hyd crib llethr orllewinol serth dyffryn Col-huw, byddwch yn croesi dwy gamfa arall ac yn dod o'r diwedd i olion hen fainc ar y dde. Cerddwch heibio i'r fainc a chroeswch y gamfa a welwch yn union o'ch blaen, yna dilynwch y llwybr treuliedig dros sawl camfa hyd at y clogwyn glan môr. Yn y fan honno, mae mainc fetel bwrpasol Ⓒ4 .

Wedyn, bydd y llwybr yn gwyro'n sydyn i'r dde i gyfeiriad y gorllewin ac yn rhedeg yn fwy neu lai'n gyfochrog ag ymyl y clogwyn. Gwelwch Gastell Sain Dunwyd o'ch blaen ac ar dywydd da, mae tiroedd Exmoor i'w gweld yn glir ar draws y môr. Wrth ddilyn y llwybr hwnnw, anwybyddwch bob llwybr bach i lawr i'r dde (onibai fod y testun isod yn eich annog i wneud fel arall) ond gwyliwch am arwyddion rhybudd am y bydd creigiau'n cwympo'n aml oddi ar y clogwyn ar y rhan hon o'r arfordir. Ar ôl cerdded am ryw hanner milltir ewch heibio i hen gaer danddaearol o'r Ail Ryfel Byd ar eich ochr chwith a chamfa garreg ar eich ochr dde. *Yn y fan honno, dylai cerddwyr sydd am ddilyn y daith gerdded hirgrwn o amgylch Llanilltud Fawr droi i'r dde a darllen y cyfeiriadau yn *1 isod.*

Os ydych yn dilyn y brif daith, cerddwch ymlaen i lawr i Fae Tresilian ❸. Croeswch y stormdraeth caregog sydd wedi'i fritho'n aml â broc môr salw a dringwch y grisiau ym mhen pellaf y traeth yn ôl i ben y clogwyn. Dilynwch y llwybr pen clogwyn a'i arwyddion amlwg am ryw hanner milltir arall i le mae llwybr arall yn ymuno ag ef o'r ochr dde. *Yn y fan honno bydd cerddwyr sy'n dilyn llwybr cylch Marcroes yn ymuno â thaith.*2*

Byddwch yn croesi camfa garreg wedyn i ardal goediog. Gwnewch yn siŵr eich bod yn dilyn y llwybr ar y dde sy'n rhedeg ar hyd crib y llethr. Mae'r llwybr hwn yn disgyn yn raddol ac yn arwain heibio i Goleg Iwerydd *❹ **(nid oes mynedfa gyhoeddus i'r Coleg yn y fan honno).** Croeswch y morglawdd, dringwch y grisiau i'r goedwig a dilynwch y llwybr sydd erbyn hyn yn gwyro'n raddol i'r chwith. Wrth i chi ddod allan o'r goedwig, gwelwch oleudy'r As Fach yn amlwg o'ch blaen. Cerddwch ymlaen i'r gorllewin ar hyd pen y clogwyn i safle'r goleudy a'i adeiladau ❺. Ymunwch â'r llwybr metlin a'i ddilyn drwy glwyd fetel fechan hyd at faes parcio'r As Fach. Ⓒ2

Wrth ymadael â'r maes parcio, cewch un ai ddilyn yr heol sy'n arwain i'r wlad ac i dref ac eglwys Marcroes ❻; neu gerdded ymlaen ar hyd llwybr yr arfordir at y dyffryn. Ar lawr y dyffryn, trowch i'r dde a dilynwch y llwybr troed drwy'r warchodfa natur a chewch ymuno â heol Marcroes nid nepell o'r eglwys.

Dilynwch yr heol heibio i'r eglwys, yna trowch i'r dde i lwybr wrth ochr byngalo o'r enw Sŵn-y-Mor. Ewch ar hyd y llwybr hwnnw i'r chwith ac yna i'r dde at gamfa. Ar ôl croesi'r gamfa honno, cerddwch yn dyn wrth y berth ar eich ochr chwith. Bydd y berth honno'n gwyro i'r chwith wedyn, ond peidiwch â chymryd unrhyw sylw o'r troad hwnnw. Anelwch, yn hytrach am y cyfeirbwynt yng nghornel uchaf llinell y berth a cherddwch ymlaen at gamfa garreg. Yna, cerddwch ar letraws i gyfeiriad y chwith tuag at glwyd. Ewch drwy'r glwyd honno, trowch i'r dde i heol fferm a cherddwch heibio i The Elms, a gwelwch Fferm Marcroes o'ch blaen ar y dde. Trowch i'r chwith yn y fan honno a chroeswch y gamfa'r ochr hon i'r cae a'r gamfa gyferbyn. Cerddwch ar letraws yn awr i gyfeiriad y dde at gamfa mewn bwlch yn y wal. Trowch i'r chwith gan gadw'n agos at y gwrych a cherddwch ymlaen at y gamfa honno ar waelod y cae. Ar ôl dringo'r gamfa, trowch i'r dde a dilynwch y llwybr dros nifer o gamfeydd drwy dir Tŷ Broc (Park Farm). Wrth ymadael â Thŷ Broc, trowch i'r dde ddwywaith ac ewch drwy glwyd bren i lwybr sy'n arwain i lawr drwy'r coed. Glynwch yn dyn wrth yr ochr chwith.

Mae'r llwybr yn arwain i heol yn nhir Coleg Iwerydd a gwelwch Eglwys Sain Dunwyd ❼ ar y dde. Trowch i'r chwith a cherddwch i fyny'r rhiw gyda'r Castell ar eich ochr dde. Ewch ar hyd yr heol (West Drive) sy'n gwyro i'r chwith, gan ddilyn y cyfeiriadau ar ddisgiau Llwybr y Mileniwm. Wrth ymadael â thir y Coleg, trowch i'r dde a dilynwch yr heol heibio i brif fynedfa'r Coleg nes i chi gyrraedd gât mochyn ar eich ochr dde Ⓒ3 . Ewch drwyddi i faes chwarae Siôr V. Cerddwch i gyfeiriad y de gan gadw'r wal a'r goedwig ar eich ochr dde, yna ewch drwy glwyd bren er mwyn cyrraedd llwybr yr arfordir. *Dylai pobl ar daith gylch Marcroes droi i'r dde'n y fan hon a dilyn yr adran yn y teithlyfr sy'n berthnasol iddynt (h.y. y cyfeiriadau a nodwyd â *2).*

Os ydych yn dilyn y brif daith, trowch i'r chwith ac ewch yn eich ôl am ryw hanner milltir ryw ychydig ymhellach na Bae Tresilian. Trowch i'r chwith wedyn wrth y gamfa fetel/garreg *1. Cerddwch i gyfeiriad y wlad am chwarter milltir nes i chi gyrraedd camfa 8 gris ar eich ochr dde. Dringwch honno a cherddwch tuag at yr adfeilion (Sheeplays). Ewch o'u cwmpas drwy ddringo camfa a chan ddilyn yr unig gyfeirbwynt yn yr ardal, cerddwch drwy glwyd sydd wedi'i chlymu (nid yw'r llwybr yn cyfateb yn y fan hon i'r map swyddogol). Ewch ymlaen i'r un cyfeiriad tuag at lwyn mawr o goed. Cerddwch i'r chwith i'r llwyn hwnnw a phan fyddwch wedi cerdded heibio iddo, gwyrwch ryw fymryn bach i'r chwith a cherddwch drwy gae mawr sy'n debyg i baith nes i chi gyrraedd camfa garreg (sylwch ar borthdy castellog Dimlands Lodge ar y chwith). O'r fan honno, mae'n rhaid i chi groesi pedwar cae a nifer o gamfeydd sy'n dilyn ei gilydd yn fwy neu lai'n llinell syth. Ar ôl cyrraedd pen pellaf y pedwerydd cae, ewch dros y gamfa bren a chan wyro ychydig bach i'r dde croeswch ddwy gamfa a dau gae arall nes i chi ddod i lwybr llydan (Church Lane). Gwyrwch i'r chwith wedyn er mwyn cyrraedd Pen y Bryn a Llanilltud Fawr.

## MANNAU O DDIDDORDEB

**❶ Eglwys Illtud Sant, Llanilltud Fawr**
Adeilad rhestredig gradd 1 yw hwn sy'n cynnwys murluniau a sgrîn garreg gerfiedig o'r oesoedd canol a meini Celtaidd sy'n dyddio'n ôl i'r 8fed ganrif. Barnwyd bod y to ym mhen gorllewinol yr adeilad yn perthyn i'r bymthegfed ganrif. Neilltuwyd pen dwyreiniol yr eglwys yn wreiddiol ar gyfer ei ddefnyddio gan breswylwyr y fynachlog a'r rhan orllewinol gan bobl y dref.

**❷ Tŷ'r Porth a'r Colomendy**
Dyma brif olion hen fynachlog Llanilltud Fawr sydd i'w gweld uwchben y tir.

**❸ Daeareg Bae Tresilian**
Mae haen amlwg o Galchfaen Lias a siâl i'w gweld yng nghlogwyni'r holl arfordir. Yn Nhresilian mae'r siâl isaf wedi erydu mewn mannau gan greu nifer o ogofâu a'r un fwyaf yw Ogof Reynard.

**❹ Castell Sain Dunwyd a Choleg Iwerydd**
Adeiladwyd y castell gwreiddiol ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar ddeg a bu ym meddiant teulu Stradling am 23 cenhedlaeth cyn cael ei drosglwyddo i nifer o wahanol berchnogion gan cynnwys William Randolph Hearst. Mae Coleg Iwerydd y Byd Unedig yn defnyddio'r safle hwn ers 1962

**❺ Goleudy'r As Fawr**
Cafodd ei adeiladu ym 1832 er mwyn ymateb i longddrylliad y 'Frolic' pan laddwyd 40 o bobl. Digomisiynwyd y golau gorllewinol erbyn hyn, ond mae'r golau dwyreiniol yn dal i weithio er nad oes gofalwr ar y safle.

**❻ Eglwys y Drindod Sanctaidd Marcroes**
Mae'r eglwys hon yn dyddio'n ôl yn wreiddiol i'r 12fed ganrif ac mae ganddi faen bedydd, drws deheuol a bwa cangell Normanaidd. Mae 'ffenestr gwahangleifion' hefyd i'w chael ar ochr dde'r gangell.

**❼ Eglwys Sain Dunwyd**
Mae gan yr eglwys hon faen bedydd Normanaidd hefyd ond mae'r rhan fwyaf o'r adeilad yn dyddio'n ôl i'r bedwaredd ganrif ar ddeg. Mae croes Galfaria o'r 15fed ganrif i'w gweld yn y fynwent.




*Goleudai'r As Fach*

Ffotograff (H) Cyngor Sir Bro Morgannwg



*Delw yn Eglwys Illtud Sant, Llanilltud Fawr*

## LLEOLIAD Y DAITH GERDDED MEWN PERTHYNAS Â LLWYBR TREFTADAETH Y MILENIWM VALEWAYS




Mae Llwybr Treftadaeth y Mileniwm Valeways yn ymestyn am fwy na 100 cilomedr ac yn cwmpasu dros 6000 o flynyddoedd o hanes. Bydd yn ymlwybro drwy nifer o dirweddau prydferth iawn. O ben gogleddol y llwybr, mae golygfeydd ar draws holl ardal Blaenau Morgannwg, ac yn y de bydd y llwybr yn dilyn arfordir clogwynog trawiadol.

Mae'r Llwybr yn ymrannu'n 16 o ddarnau sy'n hawdd eu dilyn a gellwch gerdded pob un ohonynt mewn ychydig o oriau'n unig. Mae'r tir o gwmpas yn amrywiol, yn drawiadol yn aml ac yn llawn olion hanesyddol.

Os nad ydych erioed wedi ymweld â'r rhan hon o Gymru, byddwch wrth eich bodd yn cerdded drwy'r tiroedd isel ffrwythlon sy'n ffinio â'r Arfordir Treftadaeth godidog a'i draethau hardd. Mae'r llwybr yn cynnwys llawer o nodweddion hanesyddol diddorol dros ben sy'n amrywio o siambrau claddu cynhanesyddol i gestyll, eglwysi a phlastai mawreddog.

Mae Valeways wedi cyhoeddi teithlyfr Llwybr Treftadaeth y Mileniwm. Mae'r llyfr lliwgar hwn yn disgrifio 16 rhan y daith gerdded ac yn cael ei gyflwyno mewn pecyn sydd hefyd yn cynnwys 16 o fapiau A3 cyfatebol. Cewch ei brynu oddi wrth Valeways am £8.49 sy'n cynnwys cludiant a phacio.

*Llanilltud Fawr tua 1920*






*Caer Danddaearol o'r Ail Ryfel Byd*

Ffotograff (H) Cyngor Sir Bro Morgannwg

## NODWEDDION Y DAITH GERDDED

- **Eglwys Illtud Sant, Llanilltud Fawr**
- **Tŷ'r Porth a'r Colomendy**
- **Daeareg Bae Tresilian**
- **Goleudai'r As Fawr**
- **Eglwys y Drindod Sanctaidd Marcroes**
- **Eglwys Sain Dunwyd**
- **Yr Arfordir Treftadaeth**




## DILYNWCH GÔD Y CERDDWYR

- Gwyliwch rhag tân bob amser
- Clowch bob clwyd
- Cadwch gŵn o dan reolaeth
- Dilynwch lwybrau cyhoeddus wrth groesi tir ffermydd
- Croeswch ffensys, waliau a pherthi wrth glwydi a chamfeydd
- Ewch â'ch ysbwriel adref
- Gwarchodwch yr holl fywyd gwyllt, planhigion a choed

make tracks with Valeways

Elusen gofrestredig yw Valeways sy'n cydweithio â chymunedau lleol er mwyn ailagor hen lwybrau a chreu rhwydwaith o deithiau cerdded cylch difyr ar draws Bro Morgannwg sy'n cysylltu trefi a phentrefi â'r wlad o'u hamgylch a mannau o ddiddordeb. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r holl wirfoddolwyr a roddodd yn hael o'u hamser er mwyn darparu'r daith gerdded hon i chi ei mwynhau.

VALE of GLAMORGAN BRO MORGANNWG

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales

**Partneriaeth Valeways** - Diolch o galon i Gyngor Bro Morgannwg a Chyngor Cefn Gwlad Cymru am barhau i'n cefnogi.

Cefnogwyd gan
Supported by

CRONFA LOTERI FAWR BIG LOTTERY FUND

cerdded llwybr iechyd — walking the way to health

Environment Wales — Amgylchedd Cymru

Valeways, Uned 7, Canolfan Mentrau Cymunedol y Barri, Heol Skomer, Y Barri CF62 9DA

Ffôn/ffacs: 01446 749000

E-bost: info@valeways.org.uk


Gwefan: http//www.valeways.org.uk

Elusen Gofrestredig Rhif 1062031 Cwmni Cofrestredig Rhif 333088

*Teithiau Cerdded 26, 26a a 27, Llanilltud Fawr*

# Eglwys, Coleg a Goleudy

Pellter: 9 milltir, 3 milltir a hanner neu 5 milltir



*Castell Sain Dunwyd*

Ffotograff (H) Cyngor Sir Bro Morgannwg

make tracks with Valeways